***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 2426 (Cy.208) (C.119)

# CYFRAITH TROSEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2010

*Gwnaed - - - - 2 Hydref 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 66(2) a (3)(a) o Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006(**1**), ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi a dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2010.

**Y Diwrnod Penodedig**

**2.** Mae adrannau 45 a 46 o Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 yn dod i rym ar 31 Hydref 2010 o ran Cymru.

*Leighton Andrews*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, un o Weinidogion Cymru

2 Hydref 2010

(**1**) 2006 p. 38.
(**2**) Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn adran 66 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 31 Hydref 2010 adrannau 45 a 46 o Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006 o ran Cymru.

Mae adran 45 o'r Ddeddf honno'n mewnosod, yn Neddf Addysg 1996, adran newydd 550AA sy'n ymwneud â phŵer aelodau o staff i chwilio disgyblion am arfau.

Mae adran 46 o'r Ddeddf honno'n mewnosod, yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, adran newydd 85B sy'n ymwneud â'r pŵer i chwilio disgyblion addysg bellach am arfau.